**Cyfarfod Llawn 2002 - 2003 (32)**

**Dydd Mercher, 20 Tachwedd 2002**

# AGENDA

**Bydd y Sesiwn yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1**
**Ethol David Ian Jones i Bwyllgor Rhanbarth y Gogledd**
***NDM1219* - Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr) -**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Gan weithredu o dan Adran 61(5)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn ethol David Ian Jones yn aelod o Bwyllgor Rhanbarth y Gogledd.

**Eitem 2**
**Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau.

**Eitem 3**
**Cwestiynau Cyllid i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau.

**Eitem 4**
**Datganiad: Cyflwyno Presgripsiynau Nyrsys yng Nghymru**

**Eitem 5**
**Cynnig o dan Reolau Sefydlog 22.25, 23.10 a 23.11**
***Ni chynhelir dadl ar y cynnig hwn. Byddwn yn awr yn pleidleisio arno.***
***NDM1220* - Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Gan weithredu o dan Reolau Sefydlog 22.25, 23.10 a 23.11:

1. Yn cymeradwyo:
a) Y gorchymyn drafft, The Potato Industry Development Council (Amendment) Order 2002, y

gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Tachwedd 2002; a
b) Y Memorandwm esboniadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Tachwedd 2002; ac
c) Yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Tachwedd 2002.

2. Yn cymeradwyo;
a) Y rheoliadau drafft, The Plant Protection Products (Amendment) (No. 3) Regulations 2002, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Tachwedd 2002; a
b) Y Memorandwm esboniadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Tachwedd 2002.

Cliciwch yma i weld gorchymyn drafft The Potato Industry Development Council (Amendment) Order 2002.
Cliciwch yma i weld y Memorandwm esboniadol.
Cliciwch yma i weld yr Arfarniad Rheoliadol.
*Nid yw'r dogfennau uchod ar gael yn y Gymraeg*

Cliciwch yma i weld gorchymyn drafft The Plant Protection Products (Amendment) (No. 3) Regulations 2002
Cliciwch yma i weld y Memorandwm esboniadol.
*Nid yw'r dogfennau uchod ar gael yn y Gymraeg*

**Eitem 6**
**Dirprwyo i'r Prif Weinidog Orchymyn Cymunedau Ewrop (Dynodiadau) (Rhif 2) 2001**
***NDM1221* - Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i Brif Weinidog Cymru holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol (ac eithrio'r rhai na ellir yn ôl y gyfraith eu dirprwyo yn y modd hwnnw) sydd wedi eu cynnwys mewn rheoliadau neu sy'n dod o dan reoliadau a wnaed gan:

a) y Cynulliad Cenedlaethol (p'un a ydynt wedi'u gwneud gan y Cynulliad Cenedlaethol yn unig neu ar y cyd ag un o Weinidogion y DU, un o Adrannau Llywodraeth y DU neu Weithrediaeth yr Alban neu Weithrediaeth Gogledd Iwerddon) o dan adran 2(2) o Ddeddf Cymunedau Ewrop 1972 yn unol â'r swyddogaethau a roddwyd i'r Cynulliad gan: Orchymyn Cymunedau Ewrop (Dynodiadau) (Rhif 2) 2001 (OS 2001/2555); neu

(b) un o Weinidogion y DU o dan ei bwerau/phwerau cyfatebol, o dan yr adran 2(2) y cyfeirir ati uchod, mewn perthynas ag unrhyw un o'r mesurau y rhoddwyd swyddogaethau'n ymwneud â hwy i'r Cynulliad Cenedlaethol yn y Gorchymyn Dynodi.

*[Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn golygu y caiff goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn na rôl Pwyllgorau'r Cynulliad o ran arfer y swyddogaethau uchod eu lleihau.]*

*Mae Gorchymyn Cymunedau Ewrop (Dynodiadau) (Rhif 2) 2001 ar gael ar wefan HMSO yn: http://www.hmso.gov.uk/si/si2001/20012555.htm*

*Mae copïau o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Deddf Cymunedau Ewrop 1972 ar gael yn Llyfrgell y Cynulliad.*

**Eitem 7**
**Cynnig i gymeradwyo'r protocol ar ddefnyddio Adnoddau'r Cynulliad yn ystod ymgyrch etholiadol 2003**
***NDM1223* - John Marek (Wrecsam);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn nodi y dylai'r cyllid a'r adnoddau a ddarperir gan y Cynulliad ar gyfer yr Aelodau gael eu defnyddio'n unig mewn perthynas â chyflawni dyletswyddau'r Aelodau yn rhinwedd eu swyddi fel Aelodau, ac na ellir eu defnyddio ar gyfer ymgyrchu etholiadol a gweithgareddau pleidiol wleidyddol y tu allan i'r Cynulliad

2. Yn cydnabod ei bod yn hollbwysig cadw'n gaeth at y rheol hon yn ystod y cyfnod yn arwain at Etholiadau'r Cynulliad yn 2003

3. Yn cymeradwyo'r Protocol ar Ddefnyddio Adnoddau a Ariennir gan y Cynulliad yn ystod Ymgyrch Etholiadol 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at yr Aelodau ar 13.11.02.

4. Yn penderfynu y dylid cydymffurfio â'r Penderfyniad a'r Protocol yn unol â thelerau Rheol Sefydlog 16.1 (ii)

5. Yn mynegi ei ddiolch i'r Comisiwn Etholiadol am ei gyngor ar y mater hwn.

Cliciwch yma i weld y protocol ar ddefnyddio Adnoddau'r Cynulliad yn ystod ymgyrch etholiadol 2003

**Eitem 8**
**Dadl ar adolygiad canol tymor y Polisi Amaethyddol Cyffredin**
***NDM1222* - Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried y cynigion sydd yn Adolygiad Canol Tymor y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer y Polisi Amaethyddol Cyffredin.

*Cafodd dogfen Adolygiad Canol Tymor y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer y Polisi Amaethyddol Cyffredin ei hanfon drwy'r e-bost at yr Aelodau ar 12 Tachwedd 2002.*

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol:*

**(1)+(2)+(3)+(4)**
**(5)**

**1. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd:

Yn cefnogi parhau â'r ymrwymiad i'r mesurau i roi llai o Gymorth i'r Farchnad a gynhwysir yn y cynigion.

**2. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd:

Yn cefnogi dosbarthu unrhyw arian sy'n deillio o fodiwleiddio o fewn yr Aelod Wladwriaeth o le y daw'r arian hwnnw.

**3. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd:

Yn cefnogi'r egwyddor o gyd-ariannu mewn unrhyw reoliadau ar fodiwleiddio yn y dyfodol.

**4. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd:

Yn cefnogi egwyddorion datgysylltu fel cam hanfodol tuag at baratoi safbwynt negodi'r UE cyn y cyfarfod a gynhelir ym mis Medi yn rownd Doha o drafodaethau Corff Masnachu'r Byd.

**5. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Ychwanegu pwynt newydd:

‘Yn galw ar y Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor i sicrhau bod Cymru’n elwa i’r eithaf ar yr adolygiad polisi.’

**Eitem 9**
***NDM1223*** **- Dadl fer - Owen John Thomas (Canol De Cymru) - Pensiynau**

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 26 Tachwedd 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**